

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Fai 2018

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Marion Bettenev, Nick Corney, Cyng. Elizabeth Roberts , Cyngor BS Conwy , Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau -- Terry Bullock. Janet Charlton. Siân Godbert.

Datgan diddordeb - Datganwyd diddordeb gan y Cyng. Marion Bettenev yng nghofnod [1.5] penderfynwyd nad oedd yn rhagfarnu ar y mater dan sylw.

Ethol Cadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Gareth Wynne yn Gadeirydd y Cyngor.

Ethol Is Gadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Gwawr Jones yn Is Gadeirydd y Cyngor

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 14eg Ebrill 2018

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Tai Fforddiadwy Pentre' Du.

Cadarnhaodd y Cyng. Elisabeth Roberts fod y mater yn parhau ymlaen.

[1.2] Ffordd yn Arwain i fyny heibio Moduron Betws/Arwydd fod y Ffordd yn Anaddas i lorïau

Nodwyd nad oedd yr ateb gan y Cyngor Sir yn ymateb yn gywir i ddymuniad y Cyngor Cymuned. Y clercc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

[1.3] Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Cyfeiriodd y clercc at sylwadau gan y Cyngor Sir fod y materion a godwyd mewn cyfarfod yn ddiweddar yn cael sylw.

[1.4] Diffibilrwydd Canolfan Rhyd y Craeau/ Cais am Gyfraniad

Gan nad oedd y ganolfan o fewn ffin y gymuned, penderfynwyd gwrthod y cais. Dywedodd y Cyng. Elisabeth Roberts y byddai'n cysylltu gyda'r ganolfan

Y brif Agenda

[1.5] Materion Cynllunio

[a] Codi datblygiad defnydd cymysg a fyddai'n cynnwys llety gwasanaeth 21 ystafell wely, cyfleuster spa, 3 uned fasnachol, lle ar gyfer parcio ayb. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad ond i argymhell y dylai'r llinellau melyn dwbl ar briffordd yr A5 gael ei ymestyn hyd at fynediad i Gwesty'r Waterloo er mwyn hwyluso gwelediad gyrwyr modur.

[b] Nodwyd y sylwadau a dderbyniwyd gan George a Pauline Price. Y clercc i anfon gair y dylai eu pryderon gael eu cyfeirio at swyddog cynllunio'r Parc Cenedlaethol

[1.6] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Ebrill 2018

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ebrill 2018.

[c] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol - [1] Dylai'r adolygiad risg ddim yn unig fod ar gyfer lechyd a Diogelwch ond hefyd dylai gynnwys adolygiad o reolaeth ariannol fewnol ac Insiwrans

[2] Mae cyfraith gwarchod data yn newid ar y 25/5/18 a dylai'r canlyniad i'r Cyngor Cymuned gael ei gydnabod trwy ddilyn arweiniad yr ICO /NALC/Unllais Cymru.

Y clerch i weithredu.

[d] Ffurflen Flynyddol I ddiwedd Mawrth 2018. Penderfynwyd cymeradwyo'r ffurflen flynyddol.

[1.7] Diwrnod yr Amgylchedd

Nodwyd fod Cyngor BS Conwy yn bwriadu cynnal diwrnod yr amgylchedd ym Metws-y-coed ar y 12 fed Ragfyr 2018.

[1.8] Siop Sglodion Betws-y-Coed.

Y clerch i gysylltu gyda'r perchennog i ofyn am gael symud y tair rhewgell sydd ar y boncyn ar fin yr afon.

[1.9] Eglwys Santes Fair /Cyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu £100.00 tuag at achlysuron gan yr Eglwys i godi arian at achosion da.

Cadeirydd\_\_\_\_\_